# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

[INSERT LOCATION]

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2024

Amser: 09.30 - 12.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13702

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Sarah Murphy AS<br>Joyce Watson AS |
| Tystion: | Dr Rowena Christmas, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu<br>Dr Hilary Williams, Coleg Brenhinol y Meddygon<br>Lisa Turnbull, Cynghorydd Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol<br>Dai Davies, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol<br>Calum Higgins, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Angharad Lewis (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd)<br>Rebekah James (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Sargeant AS.

## 2 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig: sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr gofal sylfaenol a gofal eilaidd

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r sector gofal sylfaenol ac eilaidd.

2.2 Cytunodd Lisa Turnbull, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, i ddarparu manylion am strategaeth gomisiynu ôl-raddedig genedlaethol ar gyfer nyrsio y mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi bod yn galw amdani.

## 3 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig: sesiwn dystiolaeth gyda gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.

3.2 Cytunodd Dai Davies, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, i rannu copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan nifer o'r Colegau Brenhinol ynghylch y cysylltiad rhwng cyflyrau cronig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig gyda'r Pwyllgor. Cytunodd Dai Davies hefyd i rannu copi o ymateb Llywodraeth Cymru, pan fydd ar gael.

3.3 Cytunodd Dai Davies i rannu copïau o adroddiadau yn manylu ar sut y gall cyrchu gwasanaethau a ddarperir gan therapyddion galwedigaethol leddfu'r pwysau ar GIG Cymru a bod yn gost-effeithiol iddo.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i'r Cadeirydd ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru

4.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf.

## 5 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill cyfarfod heddiw a'r cyfarfod ar 28 Chwefror 2024

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Atal iechyd gwael - gordewdra: papur cwmpasu

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y papur cwmpasu, yn amodol ar newidiadau mân.

## 8 Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA)

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes.